ADRODDIADAU ARHOLWYR

LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

UNED 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

UNED 331: Ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru

HAF 2022

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Cyf.

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT:
YMARFER A THEORI

Lefel 3

Mehefin 2022

Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

Sylwadau Cyffredinol

Mae arholiad Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cynnwys cwestiynau sy'n mynd i'r afael ag un neu fwy o amcanion asesu: o AA1, AA2 neu AA3. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrywiaeth o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 330. Roedd y cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5. Roedd y mathau o gwestiynau a ddefnyddiwyd yn y papur hwn yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd unrhyw gwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd.

Nod yr uned yw adeiladu ar y wybodaeth am ddysgu damcaniaethol ac ymestyn yr elfen ymarferol i gymhwyso ymgeiswyr i ymateb i'r cwestiynau yn seiliedig ar eu profiadau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Cafwyd ymateb da iawn i'r cwestiynau ar y cyfan ac roedd ymdrech glir i ateb ar sail y berfau gorchymyn a ddefnyddiwyd ac i ddefnyddio strwythur y cwestiwn fel ffocws ar gyfer yr ymatebion a ddarparwyd. Roedd y cwestiynau'n hygyrch i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr a mesurwyd amseru'r papur yn dda. Cafodd yr holl bapurau eu hateb ar-lein ac yn ysgrifenedig a defnyddiwyd y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Roedd yr ymatebion yn glir ar y cyfan a chawsant eu gwella gan ddefnydd yr ymgeiswyr o daflenni ychwanegol i ymhelaethu yn ôl yr angen. Rhoddwyd cynnig ar bob cwestiwn wrth i ymgeiswyr weithio drwy'r papur ar-lein ac yn ysgrifenedig. Roedd atebion yr ymgeiswyr yn amrywio ond roeddynt yn aml iawn yn aflwyddiannus wrth ateb y cwestiwn yn unol â'r berfau gorchmynnol. Roedd rhai ymgeiswyr wedi cyflwyno rhestri yn unig neu wedi defnyddio pwyntiau bwled; yn anffodus roedd hyn yn lleihau'n sylweddol eu gallu i ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar lefel 3.

Nifer y Cofrestriadau:

Saesneg – Ar sgrin:	**10**
Cymraeg – Ar sgrin:	**4**
Saesneg – Papur:	**116**
Cymraeg – Papur:	**20**

© WJEC CBAC Cyf.

Adborth ar gwestiynau unigol.

Cw.1 Mae llawer o blant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon ar ôl ysgol.

Disgrifiwch sut mae cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu weithgareddau tîm yn gallu cefnogi datblygiad corfforol plant yn ystod llencyndod (*adolescence*).

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi dechrau da i'r papur gan fod nifer o ddysgwyr yn gwybod cryn dipyn am sut gall manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu weithgareddau tîm gefnogi datblygiad corfforol plant yn ystod llencyndod, a dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o fanteision cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn ystod llencyndod. Mae'r cwestiwn hwn yn galluogi ymgeiswyr i fynegi eu safbwyntiau am destun a fyddai'n faes profiad iddynt drwy gydol eu plentyndod eu hunain. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi cysylltu eu trafodaeth â llesiant a phwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu weithgareddau tîm er budd iechyd meddyliol ac emosiynol cadarnhaol drwy wneud ffrindiau newydd, creu perthynas gyda grwpiau gwahanol o gyfoedion a bod yng nghwmni pobl sy'n rhannu diddordebau tebyg. Gallai'r ymatebion gyfeirio at fanteision bod yn rhan o weithgareddau grŵp neu weithgareddau tîm yn ogystal â'r manteision o ran datblygiad corfforol. Mae'r holl resymau gwerthfawr hyn yn gwella datblygiad personol drwy gymryd rhan a bod yn gysylltiedig â gweithgareddau grŵp neu weithgareddau tîm. Roedd y cwestiwn hwn wedi galluogi ymgeiswyr i ystyried yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu sy'n gwella sgiliau echddygol bras a mân, ystwythder a chryfder a’r ffaith bod cadw’n heini yn ystod llencyndod yn bwysig i lesiant cyffredinol ac o gymorth i iechyd yn y tymor byr a'r tymor hir. Dyfarnwyd marciau bandiau uwch i ymgeiswyr a oedd yn mynegi trafodaeth dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth. Roedd nifer bach o ymgeiswyr wedi trafod datblygiad corfforol yn ystod y blynyddoedd cynnar ac roedd diffyg trafodaeth gan rai eraill ond gwnaeth y mwyafrif ddatblygu trafodaeth bellach ar bwysigrwydd gwaith tîm, arweinyddiaeth a chefnogi datblygiad cymhelliant wrth ddysgu drwy chwaraeon. Ar y cyfan, roedd hwn yn gwestiwn a enillodd farciau uchel a chafodd ymgeiswyr ddechrau da i'w harholiad.

Cw.2 Mae gan ysgolion rôl bwysig o ran darparu addysg gadarnhaol am iechyd a llesiant rhywiol.

Trafodwch beth yw manteision codi ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol a deall dulliau atal cenhedlu er mwyn hybu iechyd a llesiant pobl ifanc yn eu llencyndod.

Roedd y cwestiwn hwn yn dangos dealltwriaeth dda gan fod ymgeiswyr wedi trafod manteision codi ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol a deall dulliau atal cenhedlu er mwyn hybu iechyd a llesiant pobl ifanc yn eu llencyndod. Cafwyd myfyrdod clir yn ymwneud â phrofiadau personol, a phwysigrwydd y wybodaeth a gawsant er mwyn helpu i amddiffyn eu hunain a gwneud dewisiadau cyfrifol am eu cyrff. Roedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth o ddulliau atal cenhedlu i leihau achosion o feichiogrwydd ymhlith pobl yn eu harddegau ac afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol, drwy gael trafodaethau agored a chlir am ddulliau atal cenhedlu, perthnasoedd, a rhyw yn yr ysgolion i sicrhau bod pawb yn derbyn yr un wybodaeth. Cafwyd ymatebion da iawn ar y cyfan, a dyfarnwyd marciau yn y bandiau uwch i ymgeiswyr yn aml, yn seiliedig ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddangoswyd ynghylch codi ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol a deall dulliau atal cenhedlu.

© WJEC CBAC Cyf.

Cw.3 Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (*female genital mutilation*: FGM) yn arfer diwylliannol anghyfreithlon (*illegal*) sy'n mynd yn erbyn hawliau dynol. Mae'r arfer hwn yn achosi canlyniadau tymor hir (*long-term consequences*) i iechyd seicolegol a chorfforol.

Argymhellwch (*recommend*) sut mae gweithwyr proffesiynol yn gallu adnabod benywod sy'n wynebu risg a'u diogelu nhw.

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr fynegi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am sut gall gweithwyr proffesiynol adnabod a diogelu benywod sy'n wynebu risg o anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM). Ar y cyfan, ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn ac roeddynt yn gallu argymell sut i ymyrryd yn briodol ac yn effeithiol cyn i achosion o arfer diwylliannol anghyfreithlon FGM ddigwydd. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ddealltwriaeth o sut i adnabod merch neu fenyw ifanc sy'n wynebu risg a sut i ymateb yn briodol i'w hamddiffyn. Roedd y rhesymau dros y pryderon a drafodwyd, yn ymwneud â theuluoedd sy'n cael eu hamau o arfer FGM, yn cynnwys bod yn amharod i gael cymorth meddygol neu driniaethau arferol. Os yw teulu yn dod o gymuned y gwyddys ei bod yn arfer FGM, gall cynlluniau i deithio tramor gyda'r plentyn olygu bod risg y bydd y plentyn hwnnw yn debygol o wynebu'r arfer diwylliannol anghyfreithlon FGM y tu allan i ffiniau cyfreithiol y DU. Aeth rhai ymgeiswyr ati i ddisgrifio triniaeth FGM, sut mae gorfodi'r plentyn i wynebu'r arfer diwylliannol hwn yn mynd yn groes i'w hawliau dynol, ac effaith anffurfio organau cenhedlu ar y plentyn neu'r person ifanc yn y tymor hir. Cafodd argymhellion eu gwneud yn gyson i gyfleu unrhyw bryderon i wahanol weithwyr proffesiynol fel, y swyddog diogelu, gweithiwr cymdeithasol a rhoi gwybod i'r heddlu cyn gynted â phosibl er mwyn amddiffyn iechyd a llesiant y plentyn sydd mewn perygl o gael niwed.

Cw.4 Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (*adverse childhood experiences*: ACEs) yn gallu cael effaith sylweddol ar ddatblygiad plentyn.

Amlinellwch amrywiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr amlinellu amrywiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Trafododd yr ymgeiswyr amrywiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gallu cael effaith sylweddol ar ddatblygiad plentyn, fel camdrin corfforol, emosiynol neu rywiol ac amlinellwyd yn fras yr effaith y gall hyn ei chael. Cafwyd ymatebion da iawn ar y cyfan, ac amlinellodd sawl ymgeisydd bryderon yn ymwneud â phlentyn sy'n byw gyda rhiant sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau neu riant sy'n cael problemau iechyd meddwl a allai achosi problem iechyd meddwl personol neu orbryder a'r goblygiadau i lesiant cyffredinol y plentyn. Mynegodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r effaith hefyd wrth amlinellu pryder yn ymwneud â phlentyn yn wynebu caledi economaidd, esgeuluster a thrais domestig yn y cartref a phrofiadau profedigaeth a rhieni yn gwahanu yn sgil ysgariad neu garchariad. Ni lwyddodd rhai ymgeiswyr i gyrraedd y band marciau uwch gan eu bod wedi defnyddio pwyntiau bwled i restru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae'r ferf gorchymyn yn dangos bod angen ymateb sy'n adlewyrchu dealltwriaeth glir trwy roi disgrifiad byr ar gyfer pob pwynt, byddai hyn wedi gwella amlinelliad yr ymgeiswyr o'r Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a drafodwyd ac wedi dangos lefel uwch o wybodaeth a dealltwriaeth.

© WJEC CBAC Cyf.

Cw.5 Gwerthuswch sut mae cymorth ymddygiad arbenigol (*specialist behaviour support*) yn gallu cael effaith ar blant sydd ag ymddygiad heriol.

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i werthuso rôl cymorth ymddygiad arbenigol wrth ymdrin â phlant sydd ag ymddygiad heriol. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod pwysigrwydd gwella ymddygiad y plentyn trwy gymorth ymddygiadol cadarnhaol ac ymyriadau unigol i helpu a chefnogi'r plentyn, fel cynlluniau ymddygiad unigol a gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni ac athrawon i ddatblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a dull gweithredu cyson. Trafododd yr ymgeiswyr effaith cymorth ymddygiad arbenigol i godi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth er mwyn helpu plentyn i ddeall ei emosiynau a'i deimladau fel ei fod yn gallu deall ffiniau a disgwyliadau o ran ei ymddygiad o amgylch pobl eraill. Cafodd llawer o ddysgwyr farciau uwch drwy roi gwerthusiad da a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am nifer o feysydd fel manteision ymyrryd yn gynnar, dulliau gweithredu cadarnhaol i adeiladu gwydnwch a galluogi gwell dealltwriaeth o emosiynau, tra'n pwyso a mesur sut gall cymorth ymddygiad arbenigol gael effaith ar blant sydd ag ymddygiad heriol.

Cw.6 Fel rhan o ofal iechyd cyn-cenhedlu a chyn-enedigol (*antenatal*), mae nifer o fathau o sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd yn digwydd yn ystod beichiogrwydd.

(a) Nodwch amrywiaeth o fathau o sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd sy’n digwydd yn ystod beichiogrwydd.

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr nodi amrywiaeth o fathau o sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd sy'n digwydd yn ystod beichiogrwydd, a'u nodi yn unol â'r ferf gorchymyn. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhoi enwau a ffeithiau byr am yr holl fathau o sgrinio, monitro a phrofion sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ystod beichiogrwydd. Canolbwyntiodd llawer o'r dysgwyr ar brofion uwchsain a'r rhesymau dros eu defnyddio, profion pwysedd gwaed, profion wrin a gwiriadau yn ystod beichiogrwydd fel gwiriadau pwysau a thwf i gynorthwyo beichiogrwydd iach. Yn anffodus, roedd ymatebion rhai ymgeiswyr yn seiliedig ar sgrinio, monitro a phrofion ôl-enedigol gan nad oeddynt wedi darllen y cwestiwn yn iawn, felly ni roddwyd marciau iddynt am eu hymatebion. Ar y cyfan, dyfarnwyd marciau uchel am y cwestiwn hwn a llwyddodd ymgeiswyr i gael marciau llawn am eu hymatebion.

(b) Myfyriwch (*reflect*) ar beth yw pwrpas a gwerth sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd er lles (*benefit*) y fam a’r plentyn.

Roedd y cwestiwn hwn yn datblygu 6(a) ymhellach sef, nodwch amrywiaeth o fathau o sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd sy'n digwydd yn ystod beichiogrwydd trwy fyfyrio ar bwrpas a gwerth sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd er lles y fam a'r plentyn. Cafwyd trafodaethau da am iechyd a lles y fam a'r plentyn yn ystod beichiogrwydd a'r profion penodol sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd drwy'r GIG i gynorthwyo'r fam i gael beichiogrwydd diogel. Trafododd llawer o'r ymgeiswyr y profion y gellir eu cynnal er mwyn rhoi gwybod i famau a thadau am unrhyw bryderon neu anghenion iechyd posibl sydd gan y plentyn, er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'r beichiogrwydd a'r ymyriadau gofal y bydd eu hangen o bosibl. Llwyddodd yr ymgeiswyr i ennill marciau uwch trwy nodi pwrpas a gwerth clir a mynegi gwybodaeth a dealltwriaeth o arwyddocâd amddiffyn iechyd a lleihau risgiau yn ystod beichiogrwydd.

© WJEC CBAC Cyf.

Cw.7 Mae Seren yn 7 oed ac mae'n mynd i ysgol gynradd brif ffrwd (*mainstream*). Mae Seren wedi dioddef cam-drin a thrais domestig yng nghartref y teulu, ac mae hi nawr mewn gofal maeth (*foster care*). Mae'r ysgol yn ystyried atgyfeirio (*referring*) Seren i gael cefnogaeth gan therapydd chwarae i'w helpu hi drwy'r cyfnod anodd hwn. Bydd yr ysgol yn trafod hyn â'i gofalwyr maeth.

Argymhellwch i ofalwyr maeth Seren pa fath o gefnogaeth gallai Seren ei chael drwy ymyriad (*intervention*) o sesiynau therapi chwarae rheolaidd.

Gwnaeth y cwestiwn hwn arwain at argymhellion da ynglŷn â rôl y therapydd chwarae a sut gall therapydd chwarae gefnogi anghenion Seren. Cafwyd trafodaethau amrywiol am ddull strwythuredig therapi chwarae a sut mae'n ceisio cefnogi anghenion Seren trwy leddfu teimladau o straen a gorbryder a all gael eu hachosi gan brofiadau anodd neu drawmatig. Cyfeiriodd llawer o ymgeiswyr at oblygiadau ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant a sut gall therapi chwarae helpu'r broses o wella. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn fanwl ac yn cynnwys llawer o wybodaeth ynghyd â dealltwriaeth glir o'r gefnogaeth y gallai Seren ei chael drwy ymyriad o sesiynau therapi chwarae rheolaidd.

Cw.8 Mae Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu eu galluoedd creadigol (*creative abilities*) ar draws amrywiaeth o feysydd dysgu. Mae'r plant yn helpu i ddatblygu ardal lysiau (*vegetable patch*) yn yr ardd awyr agored.

(a) Awgrymwch gyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad creadigol yn yr ardd awyr agored.

Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i awgrymu cyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad creadigol yn yr ardd awyr agored. Llwyddodd yr ymgeiswyr i fyfyrio trwy eu profiadau personol ar werth profiadau ymarferol mewn lleoliadau gofal plant a chafwyd amrywiaeth eang o ymatebion. Canolbwyntiodd llawer o ymgeiswyr ar y sgiliau corfforol y gall plant eu meithrin yn yr awyr agored, fel pwysigrwydd plannu a gwerth tyfu a newidiadau yn yr ardd lysiau. Awgrymodd llawer o ymgeiswyr gyfleoedd dysgu a oedd yn cynnwys gwahanol feysydd o'r cwricwlwm ac sy'n gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant wrth ddatblygu'r ardd awyr agored. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr am ddatblygu awgrymiadau da ar gyfer dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiadau, fel datblygu syniadau ynghylch cyfleoedd i ddysgu, er enghraifft, sôn am gylchred bywyd, dysgu am dwf iach a bwyta'n iach.

(b) Dadansoddwch y manteision o ddatblygu cyfleoedd dysgu creadigol i blant.

Roedd yr ymgeiswyr yn amlwg yn deall pwysigrwydd manteision datblygu cyfleoedd dysgu creadigol er mwyn gwella dychymyg a chreadigrwydd plant a gwnaeth llawer ohonynt roi sylw i'r pwynt hwn ar draws y cwricwlwm. Llwyddodd yr ymgeiswyr i ymateb i bwysigrwydd rhyddid drwy'r celfyddydau a mynegi teimladau ac emosiynau drwy weithgareddau creadigol er mwyn meithrin annibyniaeth, hyder a hunan-barch, boed hynny drwy dynnu lluniau, paentio, creu neu archwilio. Collwyd cyfleoedd i gyrraedd y bandiau marcio uwch oherwydd diffyg dadansoddi a manylder yn y ddealltwriaeth a fynegwyd yn y pwyntiau a wnaed, roedd ymatebion llawer o'r ymgeiswyr yn y band marcio sylfaenol neu dda. Dyfarnwyd marciau uwch i ymgeiswyr a roddodd ddadansoddiad gwych gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision datblygu cyfleoedd dysgu creadigol i blant.

© WJEC CBAC Cyf.

Cw.9 Mae gwella a chynnal lefelau uchel o bresenoldeb yn bwysig iawn i gyrhaeddiad academaidd plant mewn ysgolion.

(a) Disgrifiwch y ffactorau allweddol sy'n gallu cael effaith negyddol ar bresenoldeb plentyn yn yr ysgol.

Roedd dealltwriaeth glir o'r ffactorau amrywiol sy'n gallu cael effaith ar bresenoldeb plentyn yn yr ysgol, disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr effaith bwlio a'r rhesymau na fyddai plentyn o bosibl am ddod i'r ysgol oherwydd hyn, fel ofni beth fyddai'r bwli/bwlis yn ei wneud iddo. Cafwyd disgrifiadau hefyd yn ymwneud â gorbryder neu iechyd meddwl, gwyliau yn ystod y tymor ac effaith salwch tymor hir a'r ffaith na all plentyn ddod i'r ysgol o bosibl oherwydd apwyntiadau ysbyty rheolaidd neu oherwydd ei fod yn teimlo'n rhy wael. Er y cafwyd ymatebion da i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol, rhoddodd rhai ymgeiswyr restr fer neu gwpl o bwyntiau bwled yn unig; yn anffodus, nid yw hyn yn bodloni disgwyliad gofynnol y meini prawf asesu.

(b) Trafodwch pa mor bwysig yw strategaethau ymyrryd cynnar (*early intervention strategies*) i gynyddu presenoldeb fel dull ysgol gyfan.

Arweiniodd y cwestiwn hwn at ymateb crwn gan lawer gan eu bod yn gallu tynnu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r polisïau presenoldeb sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion. Roedd yr ymatebion yn eang ac yn amrywiol ac ar y cyfan roeddynt yn cyflwyno trafodaethau yn ymwneud â phwysigrwydd ennyn diddordeb y rhieni i annog presenoldeb a chwilio am y rheswm dros unrhyw absenoldeb rheolaidd. Roedd yr ymgeiswyr yn glir o ran pwysigrwydd darparu cymhellion i gynyddu presenoldeb, fel gwobrau, tystysgrifau, a phwyntiau tŷ i gynnig her a gwaith tîm cymhellol i annog presenoldeb uchel fel dosbarth neu grŵp blwyddyn. Ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda gan gyflwyno trafodaethau da i ennill amrediad o farciau yn seiliedig ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddangoswyd yn eu hymatebion.

Cw.10 Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 saith nod (*goals*). Un o'r nodau yw cyflawni 'Cymru Iachach'.

Crynhowch (*summarise*) beth yw uchelgais (*ambition*) y nod 'Cymru Iachach' ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Roedd y cwestiwn hwn yn heriol i lawer o ymgeiswyr gan ei fod yn canolbwyntio ar allu'r ymgeisydd i alw i gof ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd iechyd a llesiant cadarnhaol i blant yn bwyntiau trafod allweddol, ac roedd atebion llwyddiannus yn crynhoi'n dda sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio cefnogi'r nod 'Cymru Iachach' ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy'r cyfleoedd i hyrwyddo 'Cymru Iachach'. Mynegodd rhai ymgeiswyr gysylltiadau â bwyta'n iach a maeth yn ymwneud â gwella iechyd yng Nghymru. Trafododd rhai ymgeiswyr yr angen i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth i wella disgwyliad oes drwy wella dewisiadau ac ymddygiad iach a chael agwedd gadarnhaol at fywydau pobl. Roedd dealltwriaeth glir o bwysigrwydd amddiffyn yr amgylchedd a chael mynediad at fannau yn yr awyr agored ar gyfer ymarfer corff a llesiant ac effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar wella bywydau pobl yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

© WJEC CBAC Cyf.

Cw.11 Disgrifiwch y manteision i blant, teuluoedd a gofalwyr o fynychu Dechrau’n Deg.

Roedd y cwestiwn yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r Rhaglen Dechrau'n Deg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cynnig trafodaeth eang ac, ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn dangos dealltwriaeth dda o'r manteision i blant, teuluoedd a gofalwyr o fynychu Dechrau'n Deg. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr bwrpas y rhaglen Dechrau'n Deg a strwythur y diwrnod o ran darparu amgylchedd diogel, o ansawdd uchel i gefnogi dysgu a datblygiad plant. Roedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar feysydd amddifadedd a thlodi a sut mae lleoliadau Dechrau'n Deg yn gwella datblygiad iaith a llafaredd plant ac yn ceisio gwella eu perthnasoedd cymdeithasol wrth iddynt wneud ffrindiau a chymdeithasu gyda'i gilydd. Y manteision a ddisgrifiwyd sy'n cefnogi'r teuluoedd a'r gofalwyr oedd y rhaglenni i rieni, a chymorth yr ymwelydd iechyd i wella datblygiad a bywydau teuluol y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Hwn oedd y cwestiwn olaf ar y papur a chafwyd atebion o safon uchel iawn ar y cyfan, yn cynnwys manylder a disgrifiadau a oedd yn dangos dealltwriaeth glir o fanteision Dechrau'n Deg i blant, teuluoedd a gofalwyr.

© WJEC CBAC Cyf.

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT:
YMARFER A THEORI

Lefel 3

Mehefin 2022

Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru

Ymchwiliad Estynedig

Mae'r ymchwiliad estynedig i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru yn gofyn i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfredol yn y sector gan ddewis un o'r testunau ymchwil canlynol:

Testun 1
Mae ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn effeithio ar ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol y llywodraeth.

Gwnewch ymchwil ar sut mae polisïau a deddfwriaeth gyfredol wedi rhoi sail i (*informed*) newidiadau i addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Testun 2
Mae gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd rôl hollbwysig o ran hybu iechyd plant o'r adeg maen nhw'n cael eu cenhedlu nes eu bod nhw'n 19 oed.

Gwnewch ymchwil ar sut mae'r gwahanol rolau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi iechyd a datblygiad plant yng Nghymru.

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, dysgu a datblygiad plant, a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (eu hymarfer eu hunain ac ymarfer eraill) ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae gofyn i ymgeiswyr ymchwilio a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â maes gofal, chwarae a datblygiad plant a myfyrio ar sut y gallant ddylanwadu ar ymarfer.

Mae gofyn i ymgeiswyr gynnal ymchwiliad annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i ymchwilio i'r testun a ddewiswyd a'r meysydd ffocws ac mae angen iddynt gasglu tystiolaeth ddigonol a dibynadwy er mwyn paratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau, mynegi dealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth allweddol a sut mae hyn yn sail i waith gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gweithwyr gofal plant.

© WJEC CBAC Cyf.

Pwyntiau allweddol y Prif Arholwr:

Dyma'r arholiad cyntaf ar gyfer uned 331 ac aeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i'r afael â'r tasgau yn briodol, gan roi manylion am eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a oedd yn golygu bod modd iddynt ennill amrediad eang o farciau, ac roedd hyn yn llwyddiannus iawn. Cododd y tîm arholiadau nifer o bwyntiau allweddol yn ystod y broses marcio arholiadau ac mae'r rhain yn feysydd allweddol ar gyfer ymarfer, addysgu a dysgu yn y dyfodol yn gysylltiedig â strwythur yr ymchwiliad. Bydd y meysydd allweddol canlynol o gymorth o ran eglurder ac effeithiolrwydd yr ymchwiliad estynedig ac yn galluogi ymgeiswyr i ennill yr amrediad o farciau sydd ar gael.

- Rhaid nodi'r teitl a'r testun a ddewiswyd yn glir ar y dudalen gyntaf.
- Rhaid nodi rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd a rhifo pob tudalen
- Rhaid labelu tasgau 1, 2, 3, 4, 5, 6 yn glir i nodi ffiniau'r tasgau
- Ni all ymgeiswyr gynnwys dolenni at wybodaeth bellach, arolwg neu holiaduron gan eu bod y tu hwnt i ffin y cynllun marcio. Rhaid i unrhyw wybodaeth ychwanegol o'r gwaith ymchwil gael ei thrafod fel rhan o'r tasgau a osodwyd.
- Dylid osgoi defnyddio tablau a phwyntiau bwled.
- Dylid sylwi ar y dystiolaeth sy'n ofynnol gan gynnwys ystyriaeth o'r geiriau mewn print bras '**rhaid** cynnwys neu **gallai** gynnwys' i sicrhau amrediad da o farciau o'r cynllun marciau
- Rhaid i drafodaeth o ddeddfau, deddfwriaeth a fframweithiau ymwneud â Chymru a rhaid cynnwys cyfeiriadau priodol
- Rhaid nodi'r cyfanswm geiriau, heb gynnwys y cyfeiriadau a'r llyfryddiaeth
- Ni ddylai'r ymchwiliad fod yn fwy na 5500 o eiriau
- Mae'r maes testun yn ganolog i'r holl ymchwiliad. Caiff y papur asesu ei farcio fel cyfanwaith a rhaid iddo gysylltu â'r testun a ddewiswyd drwy'r dasg gyfan
- Ni fydd deunydd a gaiff ei gopïo'n uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei farcio
- Dylid osgoi defnyddio canllawiau parod; papur arholiad uned 331 yw'r brif ffynhonnell arweiniad i gwblhau'r ymchwiliad yn llwyddiannus.
- Gofynnir i'r canolfannau lwytho i fyny dogfennau Word yn hytrach na dogfennau pdf

Ni wnaeth rhai ymgeiswyr fyfyrio ar y tasgau yn effeithiol wrth iddynt weithio drwy'r ymchwiliad ac yn aml iawn gwnaethant newid eu testunau ffocws yn ystod amrywiol dasgau'r ymchwiliad; roedd y marciau a ddyfarnwyd yn sylweddol is oherwydd hyn. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi ymgymryd â gormod o feysydd ffocws o fewn eu testun dewisol ac roedd eu trafodaethau yn rhy eang ac yn aml iawn yn mynd ar goll wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen. Dylai ymgeiswyr roi sylw i'r meysydd trafod hynny y gallant eu trafod yn effeithiol yn unig, a dylai'r dewis hwnnw gael ei wneud gan yr ymgeiswyr eu hunain, nid y ganolfan. Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar y testun o'u dewis a'u dehongliad yn seiliedig ar eu dysgu a'u profiad personol.

Nifer y Cofrestriadau:
Saesneg 376
Cymraeg 25

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 1

Ysgrifennwch gyflwyniad i'ch ymchwiliad estynedig

Amlinellwch:

- y prif feysydd ffocws rydych chi wedi dewis ymchwilio iddyn nhw mewn perthynas â'r testun rydych chi wedi'i ddewis, h.y
- pam rydych chi wedi dewis y testun a'r meysydd ffocws;efallai yr hoffech gyfeirio at ddiddordeb personol, cynnwys a addysgwyd, gweithgareddau ymgysylltu â'r sector a lleoliad gwaith y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gennych
- y ffynonellau a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwaith o ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws

Mae'r dasg hon yn gofyn am gyflwyniad sy'n canolbwyntio ar yr holl ymchwiliad estynedig. Dylid nodi meysydd ffocws yn glir a dylent fod yn ganolog i'r testun a ddewiswyd. Dylid nodi un neu ddau faes ffocws a gallai'r rhesymau dros eu dewis fod yn seiliedig ar brofiad personol/ymarferol mewn lleoliad gwaith neu amgylchedd dysgu sydd wedi ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth i ysgogi ymchwiliad pellach. Mae angen i'r meysydd ffocws fod yn gyfyngedig er mwyn sicrhau bod modd ystyried a gwerthuso'r meysydd ffocws penodol yn drylwyr drwy'r dulliau ymchwil amrywiol sy'n rhan o'r broses gyfan. Dylid nodi tystiolaeth o waith ymchwil a darllen yn glir.

Datblygodd yr ymgeiswyr ddechrau da i'w hymchwiliad gan roi dechrau cadarn, da i'r maes ymchwil o'u dewis. Mae Tasg 1 yn rhoi cyfle i gyflwyno cefndir yr holl ymchwiliad a sut bydd yn datblygu, gall ymgeiswyr ddod yn ôl ac ymlaen wrth gwblhau'r amlinelliad rhagarweiniol er mwyn ychwanegu at gynllun eu maes ffocws wrth i'w hymchwiliad fynd yn ei flaen. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi nodi eu testun dewisol a phrif feysydd ffocws eu maes testun dewisol. Trafododd ymgeiswyr y rhesymau dros y testun a ddewiswyd, a allai ymwneud â diddordeb personol, gwybodaeth a dealltwriaeth drwy gynnwys a addysgir neu gysylltiad â'r maes testun drwy ymwneud â'r sector neu brofiadau yn eu lleoliad gwaith. Amlinellodd yr ymgeiswyr y meysydd trafod penodol a sut y byddent yn eu datblygu yn ystod yr ymchwiliad. Mae'r dasg hon yn rhoi cyfle i nodi'r dulliau ymchwil a'r ffynonellau gwybodaeth maent wedi dewis eu defnyddio, gall hyn gynnwys nodi'r llyfrau, cyfnodolion a gwefannau maent wedi dewis eu cynnwys a'u defnyddio yn ystod yr ymchwiliad a chyfeiriadau priodol atynt, er na chafodd y maes hwn sylw manwl mewn sawl ymchwiliad.

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 2

Trafodwch y ffordd y mae'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- y ffordd y mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- amrywiaeth o'ch safbwyntiau chi a/neu safbwyntiau eraill
- enghreifftiau priodol o theori a/neu ymarfer er mwyn cefnogi eich trafodaeth
- y ffordd y mae damcaniaethau/deddfwriaeth briodol neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy i gefnogi tystiolaeth

Dylai ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o theori/fframweithiau neu ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r meysydd penodol a chymhwyso hyn at ymarfer. Dylai pwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol gael eu hystyried yn ogystal â'u safbwyntiau personol gan roi ystyriaeth i syniadau pobl eraill, gallai hyn gynnwys lleoliad gwaith ac ymarfer yr arsylwyd arno yn ystod profiad lleoliad gwaith y gellir ei ddefnyddio i gefnogi safbwyntiau. Dylid cynnwys theori/deddfwriaeth neu fframweithiau priodol/perthnasol i gefnogi'r drafodaeth. Mae angen i ymgeiswyr gynnwys defnydd effeithiol o gyfeiriadau perthnasol.

Ysgrifennodd llawer o ymgeiswyr yn ddisgrifiadol iawn ar gyfer y dasg hon gan nodi rolau a chyfrifoldebau proffesiynol mewn manylder, er nad oedd hyn yn cynnwys unrhyw drafodaeth, safbwyntiau, na datblygiad o'u dealltwriaeth nac enghreifftiau ymarferol fel y nodwyd yn y rhestr dystiolaeth. Nid yw'r dull hwn yn cyflwyno eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'u profiadau eu hunain nac yn myfyrio ar ddysgu fel sy'n ofynnol. Collwyd marciau sylweddol yn aml oherwydd na chafodd deilliannau pob tasg eu bodloni. Mae angen nodi tystiolaeth yn glir, gan gynnwys yr elfennau ‘rhaid cynnwys' neu ‘gallai gynnwys’. Mae angen dilyn y cyfarwyddyd hwn i gwblhau'r ymchwiliad yn effeithiol. Mae angen i ymgeiswyr ddeall bod yn rhaid iddynt gwblhau pob tasg yn unol â'r hyn a nodwyd, gan barhau i ganolbwyntio ar eu testun dewisol. Mae'r tasgau yn nodi beth sy'n ddisgwyliedig o fewn y cyfanswm geiriau a argymhellir ac mae'n rhoi arweiniad clir i ymgeiswyr ymateb drwy amryw o bwyntiau bwled. Mae'r arweiniad hwn yn adlewyrchu bandiau'r cynllun marcio.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu trafod yn effeithiol sut bydd eu maes dewisol a'u meysydd penodol yn cefnogi gofal, chwarae a datblygiad plant, a all fod yn gadarnhaol, yn negyddol, neu'n drafodaeth o'r ddau. Myfyriodd yr ymgeiswyr ar amryw o safbwyntiau yn seiliedig ar eu hymchwil a oedd yn cefnogi eu barn bersonol tra'n trafod enghreifftiau o brofiadau ymarferol. Roedd angen i ymgeiswyr gynnwys enghreifftiau damcaniaethol a/neu ddeddfwriaethol sy'n rhoi esboniad pellach o'r trafodaethau yn ymwneud â'r testun a ddewiswyd a'r meysydd ffocws; llwyddodd yr ymgeiswyr hynny a wnaeth barhau i ganolbwyntio ar hyn yn eu trafodaethau i gyrraedd y band marciau uwch. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu canolbwyntio ar eu prif ffocws, ac aeth llawer ati i drafod pob tasg fel tasg ar wahân; roedd hyn yn golygu eu bod wedi colli rhediad yr ymchwiliad cyfan.

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 3

Gwerthuswch y ffordd y mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n ategu'r testun a'r meysydd ffocws o'ch dewis yn cael eu defnyddio'n ymarferol i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Gallai eich tystiolaeth gynnwys cyfeiriad at:

- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a chydweithio
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gyfranogi
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw beth priodol arall.

Mae'r dasg hon yn canolbwyntio ar werthuso amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion. Gellid datblygu'r gwerthusiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei meithrin fel rhan o'r cynnwys a addysgir ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu gwerthuso’n dda sut mae'r testun dewisol a'r meysydd ffocws yn cael eu defnyddio yn ymarferol. Mae'r dasg hon yn gofyn am fyfyrio a thrafod yn effeithiol ar sail amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion sy'n sylfaenol i ymarfer proffesiynol da. Roedd yr ymgeiswyr yn uniaethu’n dda â'u profiadau personol o'r amrywiaeth o bwyntiau a awgrymwyd neu feysydd allweddol a oedd yn cysylltu'n dda â'u maes testun. Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i drafod pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm a sgiliau proffesiynol wrth weithio gyda phlant gan barhau i ganolbwyntio ar y testun a'r maes penodol a ddewiswyd ganddynt. Cafodd egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu cysylltu'n aml â'r cyfleoedd a ddarperir i bawb drwy addasiadau yn yr amgylchedd a thrafodwyd enghreifftiau ymarferol mewn perthynas â phlant ag anghenion ychwanegol ynghyd â thrafodaethau cadarn am hawliau plant a gwneud penderfyniadau i sicrhau bod pawb yn cael rhyddid a chyfle i gymryd rhan.

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 4

Ystyriwch y ffordd y mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau (fel sy'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â'r ffordd y mae'r damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau y mae gennych brofiad ohonynt.

Mae'r dasg hon yn gofyn i ymgeiswyr gynnwys cysylltiadau â dylanwadau damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol sy'n ymwneud â Chymru (fel sy'n briodol i'r maes penodol); gwneir hyn er mwyn dangos dyfnder ac ehanger eu dealltwriaeth mewn perthynas â chryfderau a gwendidau'r ymarfer. Dylid datblygu tystiolaeth i wneud cysylltiadau clir â'r lleoliad gwaith. Mae'n rhaid i ymgeiswyr drafod sut mae deddfwriaeth, fframweithiau a/neu safbwyntiau damcaniaethol wedi dylanwadu ar ymarfer cyfredol ac wedi arwain at newidiadau yn yr ymarfer mewn lleoliadau plant drwy roi dehongliad o'u profiadau personol o'r effeithiau ar ymarfer proffesiynol.

Roedd y dasg hon yn gofyn i ymgeiswyr ystyried sut roedd eu hymchwil (fel sy'n briodol) ar eu testun dewisol wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, ond aeth nifer o ymgeiswyr oddi ar y trywydd yn llwyr a throi i drafod y testun dewisol arall, neu drafod mewn termau cyffredinol iawn, neu ar ffurf debyg i werslyfr. Yn anffodus gwnaeth hyn ostwng eu marciau gan nad oeddynt wedi dangos unrhyw ddealltwriaeth o ddylanwadau'r meysydd hyn ar ymarfer mewn termau gwirioneddol. Mae angen parhau i drafod y maes testun yn yr ymchwiliad drwyddi draw. Rhaid i'r ddeddfwriaeth, damcaniaethau neu fframweithiau priodol sy'n cysylltu â'u testun dewisol a'u meysydd penodol fod yn gysylltiedig ac yn berthnasol.

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 5

Aseswch sut y gellir defnyddio gwybodaeth am y testun o'ch dewis a damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig i gyflwyno newid mewn darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Rhaid i'ch tystiolaeth:

- dangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd a rhai sy'n datblygu
- cyfeirio at ystod o leoliadau yn y sector
- llunio barn sy'n cysylltu ymarfer a theori (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig)
- gynnig awgrymiadau ar gyfer newid yn y dyfodol y gellid ei fabwysiadu'n ymarferol er mwyn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae'n **rhaid** i dystiolaeth gyfeirio at waith ymchwil a wnaed ac mae'n rhaid iddo gyfeirio at brofiadau ymarferol.

Mae'r dasg hon yn ystyried y newidiadau yn y dyfodol ar sail ymchwil a dealltwriaeth yr ymgeisydd o'i destun a'i feysydd ffocws dewisol. Mae gofyn i ymgeiswyr ystyried y wybodaeth maent wedi'i meithrin drwy ymchwilio i'w testun a'r meysydd ffocws cysylltiedig ac asesu sut gellir defnyddio'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig i gyflwyno newid mewn darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Dangoswyd dealltwriaeth glir o'r datblygiadau mewn dulliau newydd a dulliau sy'n datblygu a fyddai o fudd i ymarfer mewn lleoliadau priodol yn sector y testun dan sylw. Trafodwyd newid a syniadau am newid yn fanwl iawn, ac roedd ymgeiswyr yn aml yn mynegi dealltwriaeth dreiddgar o ddatblygiad syniadau arloesol a datblygiadau o ran addasu ymarfer cyfredol neu henffasiwn oherwydd deddfwriaeth, fframweithiau, neu safbwyntiau damcaniaethol newydd. Myfyriodd ymgeiswyr ar eu gwahanol brofiadau ymarferol ac roeddynt yn gallu cynnig awgrymiadau am sut gallai'r newidiadau yn y dyfodol fod o gymorth yn natblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg 6

Trafodwch sut y bydd eich ymchwil a'ch dysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun wrth symud ymlaen.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- ystyriaeth o werth neu fanteision yr hyn a ddysgoch fel rhan o ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar eich canfyddiadau, i wella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeiriad at unrhyw effaith y gallai newidiadau i'ch ymarfer eich hun eu cael ar ymarfer eraill.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr fyfyrio ar eu dysgu personol eu hunain o'r testun a'r meysydd penodol dewisol. Bydd y myfyrdod hwn yn dwyn ynghyd y trafodaethau a'r safbwyntiau amrywiol drwy gydol yr holl ymchwiliad. Bydd ymgeiswyr yn gallu trafod gwerth neu fanteision yr hyn maent wedi'i ddysgu fel rhan o’r gwaith o ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis. Gall ymgeiswyr drafod beth fyddent yn hoffi ei wneud ar sail eu canfyddiadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ymarfer gyda'r nod o wella eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at unrhyw effaith bydd newidiadau yn ei chael ar eu hymarfer eu hunain a'r newidiadau i ymarfer eraill yn y dyfodol.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu dod â'u pwyntiau ynghyd a dod i gasgliad ar sail eu hymchwiliad. Roedd dealltwriaeth glir o'r ymchwiliad drwy'r myfyrdodau ar eu canfyddiadau. Roedd ymgeiswyr yn aml yn trafod gwerth eu dysgu cyffredinol yn ystod yr holl broses. Mae'r dasg hon yn faes arwyddocaol i drafod ymarfer yn y dyfodol ac archwilio manteision yr ymchwil a gafodd ei wneud ar eu hymarfer yn y dyfodol. Roedd yr ymgeiswyr a oedd wedi llunio ymchwiliad ymchwil trylwyr yn gallu trafod sut byddai eu dysgu yn gwella eu hymarfer. Gwnaeth llawer drafod pwysigrwydd rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hefyd er mwyn cefnogi eraill yn eu hymarfer a datblygu syniadau newydd a blaengar ar gyfer y lleoliad. Roedd yr ymgeiswyr yn aml yn trafod sut byddai datblygiad estynedig o wybodaeth drwy'r ymchwiliad estynedig o fudd i'w hymarfer proffesiynol yn y dyfodol wrth weithio gyda phlant.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefannau: www.cbac.co.uk
www.dysguiechydagofal.cymru

© WJEC CBAC Cyf.